



Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy

Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rheoli'r Ddogfen	
Awdur y ddogfen	Mark Fry
Statws statudol	Statudol
Statws y wefan	Ar y wefan
Cymeradwywyd gan	Pwyllgor Rheoli
Dyddiad cymeradwyo	Gorffennaf 2025
Cylch cymeradwyo	Blynyddol
Dyddiad yr adolygiad nesaf	Gorffennaf 2026

Hanes y Ddogfen			
Fersiwn	Dyddiad	Adolygydd	Nodiadau'r adolygiad

--	--	--	--

Dogfennau cysylltiedig
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) Canllawiau Trawsnewid Llywodraeth Cymru Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Sir Fynwy

Mae ein holl bolisïau wedi'u llunio gan ddefnyddio gwerthoedd

Gwaith Tîm Bod yn Agored Tegwch Hyblygrwydd

Mae ein holl bolisïau wedi'u cyd-lunio a'u llywio gan ddysgu proffesiynol, llais y disgybl, llais y rhiant/gofalwr, llais y staff ac yn destun her a chefnogaeth gan ein Pwyllgor Rheoli.

Mae'r polisi hwn yn egluro sut y dylai pobl drin eraill a beth all ddigwydd pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Mae disgyblion, rhieni a gofalwyr yn cyfeirio at Wasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy fel Dalen Newydd ac rydym yn defnyddio'r enw hwn drwy gydol y polisi hwn.

Amcanion

Mae Sir Fynwy yn ymfalchïo yn y ffaith ei bod yn gymuned gwbl gynhwysol i ddisgyblion o bob gallu, her, hil, rhyw a tharddiad cymdeithasol. Un maen prawf ar gyfer llwyddiant yr Awdurdod Lleol fydd ei allu i ddiwallu ystod eang ac amrywiol o anghenion lles a dysgu. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod y bydd nifer fach o ddisgyblion, drwy gydol eu bywyd addysgol, yn profi cyfnod pan fyddant angen lefelau uwch o gefnogaeth neu ddarpariaeth amgen nad yw'n bosibl trwy ysgolion prif ffrwd ac felly gellir ei darparu trwy'r Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion. Gall hyn fod yn gysylltiedig ag anghenion meddygol, lles emosiynol neu ymddygiad heriol, a fydd fel arfer wedi'u cefnogi trwy ymateb graddol cadarn ar lefel ysgol, gyda chefnogaeth gan weithwyr proffesiynol allanol.

Mae'r Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion wedi ymrwymo i hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad a chynnydd priodol i bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ein hamcanion craidd yw:

- Bydd disgyblion ag anghenion a heriau ychwanegol a nodwyd yn cael mynediad i gwricwlwm addas.
- Darparu cefnogaeth briodol drwy ymateb graddol o ddarpariaeth gyffredinol a mwy, wedi'i thargedu ac arbenigol
- Diwallu anghenion pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol cyn belled ag y bydd adnoddau'n caniatáu o fewn y gwasanaeth a chyda chefnogaeth yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau allanol.
- Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y person i sicrhau bod dymuniadau, safbwyntiau a barn disgyblion yn cael eu casglu a'u hystyried. Mae ymgysylltiad rhieni yn agwedd hanfodol ar y broses.

- Sefydlu parhad o ran darpariaeth a disgwyliadau drwy drosglwyddiadau cadarn gydag ysgolion, gwasanaethau'r ALI a darparwyr eraill.
- Bydd cyfathrebu a chydweithio rhwng yr holl randdeiliaid, gan gynnwys asiantaethau. Lle bo'n briodol, cymerir dull amlddisgyblaethol i ddyfeisio darpariaeth ddysgu ychwanegol a chefnogi datrys anghydfodau.
- Bydd y gwasanaeth cyfan yn gyfrifol ar y cyd am weithredu polisi ac arfer. Bydd y polisi hwn yn ymgorffori darpariaeth mewn arfer a systemau bob dydd, yn cyd-fynd â natur anghenion y disgyblion. Bydd y gwasanaeth yn gwneud y gorau o'r arfer gorau a'r polisïau presennol i ddiwallu'r angen.
- Bydd disgyblion yn cymryd rhan lawn yn y broses o ddatblygu eu Proffiliau Un Dudalen a lle bo'n briodol, yn gosod targedau neu ganlyniadau tymor byr yn eu Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar y strategaethau, y gefnogaeth, y dulliau a'r meini prawf llwyddiant i gyflawni'r targedau hynny. Lle bo'n briodol, bydd disgyblion yn cael eu hannog yn weithredol i olrhain eu cynnydd eu hunain a'u cefnogi i gydnabod eu cyflawniad ac adolygu eu targedau.
- Bydd disgyblion yn cymryd rhan lawn mewn cyfnodau pontio, wrth ailintegreiddio i leoliad ysgol a phan fyddant yn trosglwyddo rhwng cyfnodau neu i ddarpariaeth ôl-16.
- Bydd rhieni a gofawyr yn cael eu cynnwys yn llawn fel partneriaid yn y broses o wneud penderfyniadau wrth ddarparu cefnogaeth ychwanegol. Bydd eu barn a'u dealltwriaeth o anghenion y disgyblion yn cael eu hystyried yn llawn.
- Bydd system asesu arferol y gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi'n gynnar. Yn ogystal, bydd cyfathrebu cadarn a pharhaus ag unrhyw leoliad ysgol lle mae disgybl wedi bod / yn parhau ar y gofrestr.
- Bydd y gwasanaeth yn mabwysiadu'r arferion gorau wrth ddyfeisio ymyrraeth, cefnogaeth a darpariaeth yn dilyn y system gefnogaeth raddol i oresgyn rhwystrau i ddysgu.
- Yn dilyn atgyfeiriad a dderbynnir i'r Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion, cynhelir cyfarfod sy'n canolbwyntio ar y person i gynllunio'r cynnig darpariaeth ac ystyried y wybodaeth ynghylch rhwystrau i ddysgu / anghenion dysgu ychwanegol.
- Bydd yr ymyrraeth a'r ddarpariaeth a nodir yn y Proffiliau Un Dudalen a'r Taflenni Targed yn cael eu hadolygu o leiaf yn flynyddol gan ddefnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar y person. Bydd CDUau yn cael eu hadolygu'n ffurfiol trwy adolygiad sy'n canolbwyntio ar y person yn flynyddol neu lle mae newid sylweddol wedi'i ddangos.

Rolau a Chyfrifoldebau

Bydd y dull o ddarparu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Ychwanegol ar draws y gwasanaeth cyfan; bydd yr holl staff yn y gwasanaeth yn sicrhau bod hynny wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm a'r ddarpariaeth arferol. Yr athrawon a'r tiwtoriaid sy'n bennaf gyfrifol am y ddarpariaeth, a chan ddefnyddio'r wybodaeth o'r Cynllun Dysgu Ychwanegol a lle bo'n briodol y Cynllun Datblygu Unigol, maent yn cynllunio, yn cyflwyno ac yn asesu cyflawniad a chynnydd yn unol ag anghenion y disgybl.

Athrawon / Tiwtoriaid

- Darparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel fel rhan o ddarpariaeth gyffredinol y gwasanaeth.
- Gweithredu unrhyw addasiadau rhesymol drwy ddarpariaeth gyffredinol a mwy.

- Gweithredu Polisi ADY y gwasanaeth.
- Sicrhau bod yr adnoddau, y targedau a'r cwricwlwm yn briodol i anghenion y disgybl fel y'u nodir ym Mhroffil Un Dudalen y disgybl a lle bo'n briodol, y CDU.
- Sicrhau bod cyflawniad a chynnydd hefyd yn briodol i anghenion y disgybl.
- Cefnogi prosesau'r gwasanaeth o amgylch adnabod cynnar ac ymyrraeth a dargedir i ddiwallu anghenion unigol.
- Gweithio gyda Chynorthwyr Addysgu (lle bo'n berthnasol) wrth gynllunio a chyflwyno gwersi wrth gefnogi dysgwyr ac asesu cynnydd dysgwyr pan fo'n briodol, gan gael cyngor gan y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) pan fo angen.
- Gwahaniaethu dysgu a deunyddiau a gosod amcanion cyraeddadwy i sicrhau bod y disgyblion yn profi llwyddiant.
- Cyfrannu at adolygiadau sy'n canolbwyntio ar y person a mynychu adolygiadau / trafodaethau ar gynnydd disgyblion, yn ôl yr angen.
- Cofnodi ac adrodd unrhyw bryderon ynghylch cynnydd disgyblion i'r arweinydd perthnasol, gan eu trosglwyddo i'r CADY lle bo'n briodol.
- Cyfrannu at y map darpariaeth ar gyfer disgyblion unigol, gan ddefnyddio hyn i nodi gofynion ar gyfer ymyrraeth dargedig ac olrhain a monitro cynnydd drwy ymyrraeth dargedig.
- Cyfrannu at ddatblygu cefnogaeth benodol drwy ddarpariaeth ddysgu ychwanegol lle bo'n briodol, mewn cysylltiad â'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Cyfathrebu â rhieni a gofalwyr, codi pryderon a dathlu cynnydd.
- Cefnogi trosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol i sicrhau pontio llwyddiannus rhwng grwpiau blwyddyn, cyfnodau a lleoliadau / darpariaethau.

Staff cymorth

- Sicrhau bod Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol yn cael ei weithredu'n ddyddiol.
- Cysylltu â staff addysgu a'u cynghori ar faterion anghenion dysgu ychwanegol.
- Cael gwybodaeth lawn am anghenion y disgyblion, darparu Canlyniadau CDU, a gweithredu'r ddarpariaeth y cytunwyd arni.
- Gweithio gyda'r athro dosbarth i gadw cofnodion ar ddisgyblion â CDU a'u cynnydd.
- Cyfrannu a mynychu adolygiadau / trafodaethau ar gynnydd disgyblion yn ôl yr angen.
- Cefnogi lles a dysgu disgyblion trwy addasu gwaith, darparu cefnogaeth a chynyddu hyder.

Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

- Gweithio gyda'r Uwch Dîm Arwain i sicrhau goruchwyliaeth a gweithrediad dyddiol Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol.
- Cysylltu â staff addysgu a chynorthwyr addysgu a'u cynghori ar anghenion dysgu ychwanegol a materion darpariaeth dysgu ychwanegol.
- Cefnogi adnabod anghenion yn gynnar a goruchwyllo'r ddarpariaeth o fewn cyffredinol a mwy, cefnogaeth dargedig a chefnogaeth arbenigol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion.

- Gweithio gydag athrawon i oruchwylio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar lefel cyffredinol a mwy a chefnogaeth dargedig ledled yr ysgol.
- Gweithio ar y cyd â'r tîm staff ehangach i fonitro ac olrhain y ddarpariaeth a'r effaith ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Goruchwylio cofnodion pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys goruchwylio cwblhau ffurflenni atgyfeirio priodol.
- Cyfrannu at hyfforddiant mewn swydd staff a chysylltu â chydweithwyr a'u cynghori trwy'r sianeli priodol ar faterion anghenion dysgu ychwanegol.
- Nodi'r disgyblion sydd angen trefniadau mynediad a'u cyfeirio i'w hasesu / cwblhau Ffurflen 9 lle mae CDU ar waith, yn unol â Chanllawiau'r JCQ (gweler Canllawiau Trefniadau Mynediad).
- Cysylltu â rhieni / gofalwyr.
- Gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau allanol a sicrhau bod adroddiadau a ddarperir yn cael eu hymgorffori mewn Cynlluniau Dysgu Ychwanegol (CDY) a Chynlluniau Datblygu Unigol (CDY), gan sicrhau bod strategaethau, priodoliadau a darpariaeth wedi'u cytuno a'n cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Gweithio gyda'r UDA, cyfrannu at y Cynllun Datblygu Gwasanaeth a nodi anghenion adnoddau.
- Ysgrifennu CDY lle nodir ADY ar gyfer disgyblion ar gofrestr sengl (gan ddilyn y broses statudol) a dilyn y broses briodol o gyfeirio ar gyfer asesu ADY ar gyfer disgyblion sydd â PDS deuol.
- Sicrhau bod pob adolygiad CDY yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlenni statudol.
- Darparu goruchwyliaeth o rannu gwybodaeth ar bwyntiau pontio o fewn y lleoliad a chefnogi trosglwyddo gwybodaeth rhwng lleoliadau ac asiantaethau.
- Sicrhau bod y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a chyfrifoldebau statudol yn cael eu gweithredu'n glir ar draws yr ysgol.
- Sicrhau systemau clir o amgylch y prosesau datblygu, adolygu a sicrhau ansawdd o amgylch nodi, asesu, cynllunio ac adolygu'r CDY a'r CDY.
- Monitro a gwerthuso'r dull sy'n canolbwyntio ar y person a ddefnyddir ar draws y gwasanaeth.
- Goruchwylio cydlynw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (cymorth arbenigol) ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol drwy gydol y gwasanaeth.

Pennaeth GCD

- Sicrhau bod Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol yn cael ei weithredu a'i adolygu'n ddyddiol.
- Goruchwylio gwaith y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Sicrhau proses glir o apelio a datrys anghydfodau mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Gweithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i gefnogi arfer cynhwysol.

Pwyllgor Rheoli

Bydd y Pwyllgor Rheoli yn goruchwyllo gweithrediad y Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn cysylltu â'r Gwasanaeth Cynhwysiant i gefnogi.

Asiantaethau Cymorth

Bydd amrywiol asiantaethau cymorth, gan gynnwys therapyddion lleferydd, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr addysgol, arbenigwyr nam synhwyrdd, staff sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhifedd a staff meddygol yn cynrychioli haen bellach o gymorth. Eu rôl yn bennaf fydd cefnogi ac arwain athrawon i ddarparu'n briodol ar gyfer disgyblion yn eu hasesiad, cynllunio gwersi, dulliau, strategaethau ac arddulliau cyflwyno. Gwahoddir pob asiantaeth sy'n cefnogi unigolyn i fynychu a chyfrannu at y cyfarfod adolygu sy'n canolbwyntio ar y person a gynhelir bob blwyddyn.

Adnabod a Darparu

Defnyddir y diffiniadau o **anghenion dysgu ychwanegol** a **darpariaeth ddysgu ychwanegol** fel y'u cofnodwyd yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo neu ganddi anhawster dysgu neu anabledd (p'un ai yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Mae gan blentyn o oedran ysgol orfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd os yw ef neu hi:

- (a) â llawer mwy o anhawster dysgu na'r rhan fwyaf o bobl eraill o'r un oedran, neu
- (b) ag anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei rwystro rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o'r math a ddarperir yn gyffredinol i bobl eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

Mae 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' ar gyfer person tair oed neu hŷn yn golygu darpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i, yr hyn a wneir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru.

Mae Awdurdod Lleol Sir Fynwy ac ysgolion wedi bod yn gweithio tuag at weithredu Deddf ADY 2018 yn genedlaethol ers mis Medi 2021. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn cael ei defnyddio i gefnogi pob disgybl sydd newydd gael ei adnabod fel un sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae proses weithredu Llywodraeth Cymru wedi'i dilyn ar gyfer pob disgybl a oedd ar y system ADY, a bydd y gweithrediad hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Awst 2025. Gall rhieni / gofalmwr disgyblion neu bobl ifanc nad ydynt wedi trosglwyddo i'r system newydd eto ofyn am Hysbysiad CDU ar gyfer symud yn gynnar i'r system newydd.

Mae'r system ADY a'r Fframwaith Cwricwlwm wedi'u cynllunio i ddarparu system addysg gynhwysol a chyfartal yng Nghymru. Mae Cwricwlwm Cymru yn ceisio caniatáu ehangu dysgu, gan sicrhau bod pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei gefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni ei botensial llawn.

Caiff disgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ei adnabod a'i fonitro drwy'r prosesau asesu a lles yn y gwasanaeth, yn ogystal â chyfraniadau'r ysgol fel pwynt derbyn.

Mae athrawon yn rhan o'r asesiad parhaus o anghenion a chynnydd disgyblion i benderfynu ar yr angen; mae systemau monitro ac olrhain yn cefnogi nodi unrhyw bryderon ynghylch cynnydd a'r gofyniad am asesiad pellach.

Caiff disgyblion eu hasesu yn ôl pryderon ynghylch dysgu, cyflyrau corfforol / meddygol / synhwyrdd, problemau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a chyfathrebu a rhyngweithio. Defnyddir y canlynol wrth benderfynu ar lefel angen Dysgwr

- data asesu safonol
- data asesu athrawon
- asesiadau profi diagnostig gan athro/athrawes dosbarth, Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac asiantaethau allanol
- logiau ymddygiad / perthynas
- gwybodaeth am y cyfnod pontio o'r lleoliad / ysgol flaenorol
- gwybodaeth a ddarparwyd gan weithwyr proffesiynol allanol
- cyfeiriad at bryderon neu drafodaethau blaenorol gyda rhieni / gofalwyr

Mae'r systemau asesu a lles yn casglu data ar ddisgyblion sy'n rhoi gwybodaeth glir i athrawon, rhieni / gofalwyr ac yn bwysicaf oll i'r dysgwr i lywio eu dysgu. Defnyddir y data hwn i olrhain a monitro cynnydd dysgwyr ac i bennu eu gofynion dysgu.

Pontio ac Anwythho

Ar gyfer disgyblion â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU), cynhelir cyfarfod sy'n canolbwyntio ar y person ar adeg y derbyniad yn dilyn cytundeb yn y Panel Cynhwysiant (panel amlddisgyblaethol). Bydd hyn yn canolbwyntio ar yr anghenion a nodwyd a'r ddarpariaeth sydd ar gael drwy'r GCD i'w chefnogi.

Cwblheir adolygiad blynyddol o fewn 3 mis i'r pontio i'r GCD er mwyn pennu unrhyw newidiadau i anghenion, canlyniadau neu DDdA.

Lefelau Cymorth

Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir ar adeg yr atgyfeiriad, bydd y gwasanaeth yn pennu lefel y cymorth sydd ei angen i ddiwallu'r angen. Mae hyn yn parhau i gael ei adolygu'n barhaus.

Lefelau'r cymorth:

Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n gofyn am Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol

Mae anghenion disgybl yn ddifrifol ac yn gymhleth ac mae angen dull amlddisgyblaethol i wneud y mwyaf o gynnydd a datblygu ac adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol. Dyma lle mae angen i'r ddarpariaeth fod yn wahanol i'r hyn a ddarperir trwy adnoddau'r ysgol ac yn unigol i anghenion y disgybl. Mae Cynlluniau Datblygu Unigol yn ddogfennau statudol a grëwyd i ddangos anghenion a darpariaeth i ddiwallu'r anghenion hyn. Gall yr ysgol neu'r

Awdurdod Lleol gynnal Cynlluniau Datblygu Unigol, yn seiliedig ar y DDd a nodwyd.

Ar gyfer disgyblion sy'n DDd un gofrestr, bydd y DDd yn cymryd cyfrifoldeb am ddrafftio'r CDU. Os oes pryderon ynghylch nodi'r ADY / DDd neu adnoddau'r DDd, gellir gwneud atgyfeiriad i'r ALI i ystyried CDU a gynhelir gan yr ALI (gweler y ddogfen Egwyddorion / Pennod 12 o God ADY Cymru).

Ar gyfer disgyblion sy'n DDd dau gofrestr, DDd a lleoliad ysgol, bydd unrhyw CDUau presennol yn cael eu cyfeirio at yr ALI i'w cynnal. Gwneir unrhyw geisiadau am asesiad o ADY i'r Panel Cynhwysiant i'w hystyried. Yr ALI sy'n arwain y broses ac unrhyw ddatblygiad o CDU. Lle mae CDU ar waith, cynhelir cyfarfod adolygu yn flynyddol a gwahoddir yr holl randdeiliaid i gyfrannu. Gall rhiant / gofawyr neu'r person ifanc hefyd alw cyfarfod adolygu neu os oes newid yn yr angen.

Ymyrraeth a Dargedir

Mae gan y gwasanaeth ystod o ddarpariaeth dargedig ar waith a all fod yn fyrdymor neu'n hirdymor i fynd i'r afael â rhwystr a nodwyd i ddysgu. Datblygir Proffil Un Tudalen gyda'r holl randdeiliaid sy'n darparu gwybodaeth allweddol am y disgybl i bawb sy'n gweithio gyda'r unigolyn. Bydd hyn yn cael ei adolygu o leiaf yn flynyddol. O fewn yr ymyrraeth dargedig, bydd targedau ffocws yn cael eu gosod, a bydd staff yn parhau i olrhain a monitro cynnydd drwyddynt.

Darpariaeth Gyffredinol a Mwy

Gall fod angen addasiadau rhesymol i oresgyn rhwystrau i ddysgu, gall y rhain fod yn gysylltiedig â safle eistedd, amseroedd, adnoddau ac ati. Ar gyfer unigolion sydd angen addasiadau rhesymol o fewn dysgu, gellir datblygu Proffil Un Tudalen i rannu'r wybodaeth hon gyda'r holl randdeiliaid.

Darpariaeth Gyffredinol

Mae'r holl addysgu a dysgu drwy gydol y gwasanaeth yn gynhwysol i ddiwallu anghenion bron pob disgybl, gan gynnwys gwahaniaethu o ansawdd uchel.

Ar gyfer pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol / rhwystrau i ddysgu wedi'u nodi, creir Proffiliau Un Tudalen gyda disgyblion a theuluoedd i fesur a chofnodi eu barn ar ddulliau o gefnogi wrth wneud cynnydd a chyflawni llwyddiant. Mae Proffiliau Un Tudalen yn ddogfennau gwaith sydd ar gael i'r holl staff, a fydd yn cael eu hadolygu'n ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn, trwy ddulliau sy'n canolbwyntio ar y person.

Mae Cynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu storio'n ddiogel ar SIMS i'r holl staff eu hasesu yn ôl yr angen (staff cymorth ac addysgu); anogir staff i gael mynediad at y wybodaeth berthnasol gan y Cydlynnydd ADY. Adolygir Cynlluniau Datblygu Unigol trwy arfer sy'n canolbwyntio ar y person yn flynyddol neu lle mae newid sylweddol mewn angen. Gall y disgybl neu'r rhiant / gofawr ofyn am adolygiad o CDU ar unrhyw adeg.

Mae ymgysylltu â disgyblion, rhieni / gofawyr a rhanddeiliaid eraill ym mhob cam o'r broses yn hanfodol wrth adeiladu, adolygu a datblygu darpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae'r gwasanaeth yn croesawu ac yn gwrando ar bryderon rhieni / gofawyr ac yn gweithredu gyda chamau cytunedig i bennu'r angen unigol a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion a nodwyd trwy ei

systemau a'i strwythurau. Mae rhieni / gofalmwr yn gallu trafod unrhyw bryderon ADY penodol gyda'r tiwtor a neilltuwyd. Mae'r Polisi Cwynion ar gael drwy'r wefan.

Monitro a Gwerthuso

Caiff llwyddiant Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol y gwasanaeth a'r Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol ei werthuso drwy:

- dadansoddi data olrhain disgyblion a chanlyniadau asesu
- monitro gweithdrefnau ac arferion gan y Tîm Arweinyddiaeth Uwch
- adolygu canlyniadau targed tymor byr a CDU
- hunanwerthuso'r gwasanaeth, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau
- y broses gymedroli Anghenion Dysgu Ychwanegol
- yr adolygiad ADY / DDdA ddwywaith y flwyddyn gyda'r ALI
- Cynllun Datblygu Gwasanaeth

Cymeradwywyd y polisi hwn gan y Pwyllgor Rheoli

Llofnod: *L. Wilce* Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli

Dyddiad: ...9fed Gorffennaf 2025.....

Llofnod: Jake Parkinson Pennaeth Gwasanaeth Cyfeirio
Disgyblion

Dyddiad:9fed Gorffennaf 2025.....